Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol wrth gefnogi sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i'w helpu i ymateb i'r her o leihau cyllidebau wrth ddarparu gwasanaethau o ansawdd. Mae argaeledd arian buddsoddi i arbed yn enghraifft ymarferol o gymorth o'r fath. Mae wedi cael ei ddefnyddio'n hawdd ac mae eisoes yn amlwg ei fod yn gallu helpu prosiectau i symud ymlaen yn llwyddiannus drwy ddarparu cyllid pontio ad-daladwy. Enghraifft dda yw prosiect gorsaf wybodaeth Casnewydd yn Un. Mae'n darparu ystod o wasanaethau hygyrch o dan un to, ac mae wedi'i gynllunio gyda'r bobl yn y gymuned leol mewn golwg yn hytrach na strwythurau sefydliadol. Caiff arbedion maint ac arbedion eraill eu sicrhau drwy ddod â chyrrff gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd i rannu adnoddau, offer a gofod swyddfa a thrwy ryddhau asedau sydd dros ben. Mae Llywodraeth Cymru am weld y dull hwn yn cael ei fabwysiadu ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus, gan wireddu gwelliant, arloesi ac effeithlonrwydd.

Wrth gefnogi gwelliant i'n gwasanaethau, mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud y gorau posibl o'r hyn a ellir ei gyflawni o'r adnoddau sydd ar gael. Mae natur ad-daladwy buddsoddi i arbed yn ddull llwyddiannus, lle gellir darparu arian trosiannol tymor byr i helpu pontio'r bwch rhwng gweithredu'r prosiect a chyflwyno manteision ariannol a thymor hwy. Mae'r angen i ad-dalu arian buddsoddi i arbed yn meithrin disgyblaeth ychwanegol i gyflwyno prosiect ac rydym yn gweld newid meddylfryd ac aeddfedrwydd o ran hyrwyddwyr prosiect. Ceir mwy o gydnabyddiaeth nad yw'r ddarpariaeth barhaus ar gyfer grantiau na chânt eu had-dalu ar gyfer prosiectau sy'n creu arbedion arian parod yn gynaliadwy.

Mae'r buddsoddiadau a wnaed yn flaenorol o dan y gronfa bellach yn aeddfedu ac yn cael eu hailgylchu yn llwyddiannus, gyda'r symiau sydd ar gael ar gyfer ail-fuddsoddi yn cynyddu wrth i fwy o brosiectau gyrraedd eu haeddfedrwydd. Y llynedd, ad-dalodd prosiectau presennol dros £8 miliwn a chafodd yr arian ei ailfuddsoddi'n llawn mewn cynigion ar gyfer prosiectau newydd.

forecast to be repaid next year.

Eleni, disgwylir i dros £9 miliwn gael ei ad-dalu a'i ailfuddsoddi, a rhagwelir y caiff £15 miliwn ei ad-dalu y flwyddyn nesaf.

2.45 p.m.

With the success to date of invest-to-save, I have decided to increase the size of the fund and supplement the moneys for new investments arising from repayments. I am making available an additional £20 million for invest-to-save over this and the next two financial years, starting with £10 million in 2012-13, which will be allocated via the impending supplementary budget. This additional funding will ensure the sustainability of the fund.

O ganlyniad i lwyddiant buddsoddi i arbed hyd yn hyn, rwyf wedi penderfynu cynyddu maint y gronfa ac ychwanegu at yr arian ar gyfer buddsoddiadau newydd sy'n deillio o ad-daliadau. Rwyf yn darparu swm ychwanegol o £20 miliwn ar gyfer buddsoddi i arbed ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf, gan ddechrau â £10 miliwn yn 2012-13, a gaiff ei ddyrannu drwy gyfrwng y gyllideb atodol a gyhoeddir yn fuan. Bydd y cyllid ychwanegol yn sicrhau cynaliadwyedd y gronfa.

With future budgets established, I am also pleased to announce today the outcome of the latest invest-to-save funding round. Overall, I am investing £12.7 million to support seven new project proposals. This includes a total investment of £7.5 million to three projects that share similarities, in that they seek to address the issue of providing high-quality services to elderly and frail people in our communities, supporting them to live independently within their own homes. This includes three schemes led by local health boards: Hywel Dda Local Health Board's Care Closer to Home project, Cardiff and Vale University Local Health Board's the Wyn Campaign: Regaining and Retaining Independence, and Cwm Taf Local Health Board's integrated whole-system intermediate care model. I am delighted that these new collaborative initiatives involving health boards, local government and the third sector have drawn directly from the experience and know-how that has emerged from the invest-to-save-supported Gwent frailty programme, Happily Independent. The groundbreaking Gwent programme has piloted new approaches and has been able to provide valuable insights into transforming services to our elderly and frail.

A chyllidebau'r dyfodol wedi'u pennu, rwyf hefyd yn falch o gyhoeddi heddiw ganlyniad y cylch cyllid diweddaraf ar gyfer buddsoddi i arbed. At ei gilydd, rwy'n buddsoddi £12.7 miliwn i gefnogi saith o gynigion ar gyfer prosiectau newydd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad o £7.5 miliwn, yn gyfan gwbl, i dri phrosiect sydd â nodweddion tebyg, gan eu bod yn ceisio mynd i'r afael â darparu gwasanaethau o safon uchel i bobl oedrannus a bregus yn ein cymunedau a'u cefnogi i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys tri chynllun dan arweiniad byrddau iechyd lleol: prosiect gofal yn nes adref Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Ymgyrch Wyn: Adennill a Chynnal Annibyniaeth Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a model gofal integredig canolradd system gyfan Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf. Rwyf wrth fy modd bod y cyd-fentrau newydd hyn sy'n cynnwys byrddau iechyd, llywodraeth leol a'r trydydd sector wedi elwa'n uniongyrchol o'r profiad a'r wybodaeth sydd wedi deillio o raglen eiddilwch Gwent, *Happily Independent*, a gafodd ei hariannu gan gronfa buddsoddi i arbed. Mae rhaglen arloesol Gwent wedi treialu dulliau newydd ac wedi darparu gwybodaeth werthfawr ynglŷn â thrawsnewid gwasanaethau i bobl oedrannus a bregus.

In this latest funding round, I am also supporting the next phase of the NHS's collaborative approach to procurement for mental health rehabilitation services. The project will build on the previous invest-to-

Yn y cylch cyllid diweddaraf, rwyf hefyd yn cefnogi cam nesaf dull caffael cydweithredol y GIG ym maes gwasanaethau adsefydlu iechyd meddwl. Bydd y prosiect yn adeiladu ar y gwaith blaenorol a gafodd genfogaeth

save supported work that has been successful in delivering improvements and generating significant savings. It recently won an award: the 2012 Government Opportunities Excellence in Public Procurement Award. This is recognition at a UK level of the achievement and success of the approach developed and delivered in Wales. I am also making provision for the NHS to support pilot work to explore the potential benefits of applying e-rostering/scheduling to the wider workforces, assisting the Aneurin Bevan Local Health Board to introduce medicines management practices to secondary care and to assist the continuing roll-out of the NHS voluntary early release scheme.

I referred earlier to the importance of learning from existing invest-to-save projects and the need to capture, cascade and promote this learning. Last October, I published a report entitled 'Investing-to-Save: short-term investment for long-term benefit', which provided an overview of projects supported by the fund. The report helped to raise awareness of supported projects by providing a directory of schemes and by providing a series of short case studies. When publishing the information, I said that I wanted others to benefit from the experience and lessons learned from invest-to-save projects. Furthermore, I wanted to encourage others to find out more about specific initiatives that had relevance and possibly wider applicability to their own areas of service delivery.

Last year's report was well received and therefore I am pleased to announce that I am today publishing a further tranche of short case studies, which have been provided by organisations in receipt of invest-to-save support. These include Merthyr Tydfil County Borough Council's e-procurement project, which will increase productivity and gain efficiencies through the introduction of e-procurement software and functionality. The project has been one of the most ambitious e-procurement initiatives undertaken by a Welsh local authority and has the potential of releasing £15 million-worth of efficiency savings over five years.

Continuing with the procurement theme, the second of the new case studies relates to the

buddsoddi i arbed a fu'n llwyddiannus o ran cyflwyno gwelliannau a chreu arbedion sylweddol. Yn ddiweddar, enillodd wobwr Rhagoriaeth mewn Caffael Cyhoeddus *Government Opportunities* 2012. Mae hyn yn gydnabyddiaeth ar lefel y DU o gyflawniad a llwyddiant y dull sydd wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno yng Nghymru. Rwyf hefyd yn gwneud darpariaeth i'r GIG gefnogi gwaith peilot i edrych ar fanteision posibl cymhwyso e-restru/e-drefnu i'r gweithluoedd ehangach, gan gynorthwyo Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan i gyflwyno arferion rheoli meddyginiaethau mewn gofal eilaidd a chynorthwyo'r gwaith o barhau i gyflwyno cynllun rhyddhau cynnar gwirfoddol y GIG.

Cyfeiriais yn gynharach at bwysigrwydd dysgu o brosiectau presennol buddsoddi i arbed a'r angen i gasglu, rhaedru a hyrwyddo'r hyn sydd wedi'i ddysgu. Fis Hydref diwethaf, cyhoeddais adroddiad o'r enw 'Buddsoddi i Arbed: buddsoddi yn y tymor byr er budd y tymor hir', a oedd yn rhoi trosolwg o'r prosiectau a gefnogir gan y gronfa. Roedd yr adroddiad yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r prosiectau a gefnogir drwy ddarparu cyfeirlyfr o gynlluniau a thrwy ddarparu cyfres o astudiaethau achos byr. Wrth gyhoeddi'r wybodaeth, dywedais fy mod am i eraill elwa o'r profiad a'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau buddsoddi i arbed. Yn ogystal, roeddwn eisiau annog eraill i ddarganfod mwy am fentrau penodol a oedd yn berthnasol ac a oedd o bosibl yn fwy cymwys i'w meysydd eu hunain.

Cafodd yr adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd dderbyniad da ac felly rwy'n falch o gyhoeddi heddiw gyfres ychwaengol o astudiaethau achos byr, sydd wedi cael eu darparu gan sefydliadau sy'n cael cefnogaeth buddsoddi i arbed. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect e-gaffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a fydd yn cynyddu cynhyrchiant a sicrhau effeithlonrwydd drwy gyflwyno meddalwedd a gallu e-gaffael. Mae'r prosiect wedi bod yn un o'r mentrau e-gaffael mwyaf uchelgeisiol gan awdurdod lleol yng Nghymru a gallai sicrhau gwerth £15 miliwn o arbedion effeithlonrwydd dros bum mlynedd.

Gan barhau â'r thema caffael, mae'r ail o'r astudiaethau achos newydd yn ymwneud â'r

award-winning collaborative procurement arrangements for the acquisition of mental health services for the NHS, which I mentioned earlier. Hywel Dda Local Health Board has provided a case study for its mental health rehabilitation project, and, finally, One Newport has prepared a case study for its successful Information Station project. I will continue to encourage the capture and sharing of learning from invest-to-save-supported projects and will look to publish further short case studies later in the year.

With the continuing need to look afresh at how public services are delivered, there is also a need for further support in taking forward the agenda. I am pleased with the progress reported by projects already in receipt of invest-to-save funding. These are delivering real change that will have lasting benefits, during a difficult and challenging financial period. I will therefore make a further round of invest-to-save funding available and will invite requests for interest-free, repayable investments in the autumn.

The fund will call for strategic projects that support the Welsh Government's improvement programme, including those promoted by the public services leadership group. I will at this time also set out the scope to provide greater levels of capital support through the invest-to-save fund, as outlined in the 'Wales Infrastructure Investment Plan'. The fund will open once again to new project applications on 5 November.

Paul Davies: I thank the Minister for her statement this afternoon. As she has already outlined, this is the sixth tranche of invest-to-save funding that the Welsh Government has made available to public service bodies, and I hope that this funding goes some way towards helping to deliver better value for money for our public services.

I am pleased that the Welsh Government has made a further £12.7 million available for seven projects seeking funding for this round. It is clear that there is demand for this

trefniadau ar y cyd arobryn ynglŷn â chaffael gwasanaethau iechyd meddwl yn y GIG, a grybwyllais yn gynharach. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi darparu astudiaeth achos ar gyfer ei brosiect adsefydlu iechyd meddwl, ac, yn olaf, mae Casnewydd yn Un wedi paratoi astudiaeth achos ar gyfer ei brosiect Gorsaf Wybodaeth llwyddiannus. Byddaf yn parhau i annog casglu a rhannu'r hyn a ddysgir o brosiectau sy'n cael cefnogaeth buddsoddi i arbed a byddaf yn ceisio cyhoeddi mwy o astudiaethau achos byr yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn sgîl yr angen parhaus i edrych o'r newydd ar sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu, mae hefyd angen cymorth pellach wrth fwrw ymlaen â'r agenda. Rwy'n falch o'r cynnydd y mae prosiectau sydd eisoes yn cael arian buddsoddi i arbed wedi adrodd amdano. Mae'r prosiectau hyn yn cyflawni newid gwirioneddol a fydd o fudd parhaol, a hynny yn ystod cyfnod ariannol anodd a heriol. Felly, byddaf yn darparu cylch arall o arian buddsoddi i arbed a byddaf yn gwahodd ceisiadau am fuddsoddiadau di-log, ad-daladwy yn yr hydref.

Bydd y gronfa yn galw am brosiectau strategol sy'n cefnogi rhaglen wella Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai a hyrwyddir gan grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus. Bryd hynny, byddaf hefyd yn nodi'r posibilrwydd o ddarparu lefelau uwch o gymorth cyfalaf drwy'r gronfa buddsoddi i arbed, fel yr amlinellwyd yn y 'Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'. Bydd y gronfa yn agor unwaith eto i geisiadau ar gyfer prosiectau newydd ar 5 Tachwedd.

Paul Davies: Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Fel y mae hi eisoes wedi amlinellu, dyma'r chweched gyfres o arian buddsoddi i arbed y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddarparu i gyrff gwasanaethau cyhoeddus, a gobeithio y bydd y cyllid hwn yn gwneud tipyn i helpu i gyflawni gwell gwerth am arian i'n gwasanaethau cyhoeddus.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £12.7 miliwn ychwanegol ar gyfer saith o brosiectau sy'n ceisio cyllid ar gyfer y cylch hwn. Mae'n amlwg bod galw am y

funding across Wales and it is important that the Welsh Government continue to provide funding for innovative collaborative projects. Given the demand for such projects, will the Minister in her response give us some more specific detail on the criteria used to determine which projects should go forward under this scheme? Perhaps she could publish these criteria to ensure that the process is open and transparent.

It is absolutely critical that these projects achieve efficiency savings in the long term. Perhaps the Minister will tell us what assessments the Welsh Government has made to test the effectiveness of completed projects. That is essential, because these tests will then help to inform the criteria used for potential projects in the future. In other words, how will the case studies that she has published today be used to inform future projects?

Naturally, there will be projects that have been unsuccessful in applying for this funding. Could the Minister reassure those unsuccessful applicants that they can reapply for support from the fund in the future?

Given the tight financial climate, there are undoubtedly unseen obstacles which can delay projects. In the event of this happening, can the Minister tell us whether the Welsh Government allows for a project to reapply for further moneys if it has missed a previous round of funding?

Clearly, a number of successful projects have emerged because of this scheme. Can the Minister tell us how the Welsh Government ensures best practice from previous successful projects is shared with potential projects so that they can be successful in applying for funding in future rounds?

I accept that the main objective of the scheme is to deliver significant cash-releasing efficiency gains. However, it is important to ensure that funding is spread fairly across

cyllid hwn ledled Cymru ac mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer cyd-brosiectau arloesol. O ystyried y galw am brosiectau o'r fath, a wnaiff y Gweinidog yn ei hymateb roi rhywfaint o fanylion mwy penodol am y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa brosiectau a ddylai fynd ymlaen o dan y cynllun hwn? Efallai y gallai gyhoeddi'r meini prawf hynny er mwyn sicrhau bod y broses yn agored ac yn dryloyw.

Mae'n gwbl hanfodol bod y prosiectau hyn yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y tymor hir. Efallai y bydd y Gweinidog yn dweud wrthym pa asesiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i brofi effeithiolrwydd y prosiectau a gwblhawyd. Mae hynny'n hanfodol, oherwydd bydd y profion hyn wedyn yn sail i'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer prosiectau posibl yn y dyfodol. Mewn geiriau eraill, sut y bydd yr astudiaethau achos y mae hi wedi eu cyhoeddi heddiw yn cael eu defnyddio i lywio prosiectau yn y dyfodol?

Yn naturiol, bydd rhai prosiectau yn aflwyddiannus wrth wneud cais am yr arian hwn. A all y Gweinidog roi sicrwydd i'r ymgeiswyr aflwyddiannus hyn y byddant yn gallu gwneud cais arall am gymorth o'r gronfa yn y dyfodol?

O ystyried yr hinsawdd ariannol dynn, heb os, gall rhwystrau anweledig arwain at oedi prosiectau. Os bydd hyn yn digwydd, a all y Gweinidog ddweud wrthym a yw Llywodraeth Cymru yn caniatáu i brosiect wneud cais arall am arian pellach os yw wedi colli cylch blaenorol o gyllid?

Yn amlwg, mae nifer o brosiectau llwyddiannus wedi dod i'r amlwg oherwydd y cynllun hwn. A all y Gweinidog ddweud wrthym sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arferion gorau prosiectau llwyddiannus blaenorol yn cael eu rhannu â phrosiectau posibl er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus wrth wneud cais am gyllid mewn cylchoedd yn y dyfodol?

Rwy'n derbyn mai prif amcan y cynllun yw sicrhau enillion effeithlonrwydd sylweddol sy'n rhyddhau arian. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod cyllid yn cael ei

projects in Wales. While it is up to public service bodies to apply for funding, it is important that the Welsh Government do all that it can to invest strategically in funds that will deliver for communities the length and breadth of Wales. It is vital that the whole of Wales benefit from these funds—in other words, that the support is spread across the whole of the country and that the effects are felt across the whole of Wales.

The Minister said in her statement that this tranche is aimed at collaborative projects, and I am sure that all parties in the Chamber would subscribe to that agenda. I understand that, in general terms, the investments from the fund will face no interest charges and will be given a degree of flexibility on the payback period. Perhaps the Minister could elaborate a little on how flexible the payback period is and, indeed, on how it is determined. Is the decision taken on a case-by-case basis, for example?

I note that in the invest-to-save fund, the funding is directed in large part towards the revenue costs associated with the implementation of a project. However, it is noted in the guidance that costs associated with preparatory work, such as feasibility studies and business cases, might also be considered. Could the Minister outline on what basis she would be willing to invest in these kinds of preparatory work? It is also stated in the guidance that, while any capital costs associated with a proposed project generally need to be mainstreamed through an organisation's existing funding arrangements and resources, the fund might also be able to assist with capital costs in some circumstances. Can the Minister tell us exactly what constitutes 'some circumstances'?

I also want to ask the Minister about how the invest-to-save fund works within the Welsh Government's overall efficiency funding. I would be grateful if she could provide an update on how the fund has worked in conjunction with the efficiency and innovation board, for example, to save money where possible and deliver good-quality

ddosbarthu'n deg ymysg prosiectau yng Nghymru. Er mai penderfyniad i gyrff gwasanaethau cyhoeddus yw gwneud cais am arian, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i fuddsoddi'n strategol mewn cyllid a fydd yn darparu ar gyfer cymunedau ar hyd a lled Cymru. Mae'n hanfodol bod Cymru gyfan yn elwa o'r cyllid hwn—mewn geiriau eraill, bod y gefnogaeth yn cael ei dosbarthu ar draws y wlad i gyd a bod yr effeithiau'n cael eu teimlo ledled Cymru gyfan.

Dywedodd y Gweinidog yn ei datganiad fod yr arian y tro hwn wedi ei anelu at brosiectau cydweithredol, ac rwy'n siŵr y byddai pob plaid yn y Siambr yn cyd-fynd â'r agenda honno. Rwy'n cael ar deall, yn gyffredinol, na fydd y buddsoddiadau o'r gronfa yn wynebu taliadau llog ac y bydd peth hyblygrwydd o ran y cyfnod ad-dalu. Efallai y gallai'r Gweinidog ymhelaethu ychydig ynghylch pa mor hyblyg yw'r cyfnod ad-dalu ac, yn wir, ynghylch sut y caiff ei benderfynu. A yw'r penderfyniad yn cael ei wneud fesul achos, er enghraifft?

Sylwaf, yn y gronfa buddsoddi i arbed, fod y cyllid yn cael ei gyfeirio i raddau helaeth at y costau refeniw sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiect. Fodd bynnag, nodir yn y canllawiau y gallai costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith paratoi, megis astudiaethau dichonoldeb ac achosion busnes, hefyd gael eu hystyried. A all y Gweinidog amlinellu ar ba sail y byddai'n barod i fuddsoddi yn y mathau hyn o waith paratoi? Dywedir hefyd yn y canllawiau, er bod angen i unrhyw gostau cyfalaf sy'n gysylltiedig â phrosiect arfaethedig gael eu prif ffrydio trwy drefniadau ac adnoddau cyllido presennol y sefydliad, efallai y gall y gronfa hefyd helpu gyda chostau cyfalaf mewn rhai amgylchiadau. A all y Gweinidog ddweud wrthym beth yn union y mae 'rhai amgylchiadau' yn ei olygu?

Rwyf hefyd eisiau gofyn i'r Gweinidog am y modd y mae'r gronfa buddsoddi i arbed yn gweithio o fewn cyllid effeithlonrwydd cyffredinol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai roi diweddariad am sut y mae'r gronfa wedi gweithio ar y cyd â'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, er enghraifft, i arbed arian lle y bo hynny'n

public services across Wales.

Finally, once again, I thank the Minister for her statement. I look forward to hearing more about these projects over the coming weeks.

Jane Hutt: I thank Paul Davies for those pertinent questions and for his welcome and support for the statement. As he says, this is about better value for money, efficiency and innovation in our public services. His final point is important as regards how this links with the work led by the Minister for Local Government and Communities, Carl Sargeant, and the role of the public service leadership group, which is steering a collaborative agenda and ensuring that we are learning lessons and taking through proposals emerging from the Simpson review, the front-line resources review, social services reform and the NHS five-year strategic plan.

On the first point, the objective of the fund is to deliver improved public services in line with our wider efficiency and improvement agenda, encouraging stronger collaboration across organisations and administrative boundaries where we can clearly ascertain that that leads to measurable benefit in public service delivery. Your point about promoting the dissemination of lessons learned and best practice arising from the projects is key to their applicability and the transfer of good practice that can emerge. We are targeting projects that support key aspects of the Welsh Government's public services efficiency agenda. On how the finance operates and the level of support available, contributions of up to 75% of eligible implementation of project costs are available and there can be higher investment where we have the possibility of stimulating significant cash-releasing efficiency benefits.

On the repayments, all investments are on a repayable basis, interest-free, but the repayments are negotiable to ensure that flexibility. Therefore, there are no set terms for the repayments, but we aim to agree a repayment profile that serves the successful

bosibl, a darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da ledled Cymru.

Yn olaf, hoffwn ddiolch unwaith eto i'r Gweinidog am ei datganiad. Edrychaf ymlaen at glywed mwy am y prosiectau hyn dros yr wythnosau nesaf.

Jane Hutt: Diolch, Paul Davies, am y cwestiynau perthnasol hynny ac am y croeso a'r gefnogaeth i'r datganiad. Fel y dywed, mae hyn yn ymwneud â gwell gwerth am arian, effeithlonrwydd, ac arloesi yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Roedd ei bwynt olaf yn bwysig o ran sut y mae hyn yn cysylltu â'r gwaith sydd dan arweiniad Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, a rôl grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, sy'n llywio agenda o gydweithio ac yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi a gweithredu'r cynigion sy'n deillio o adolygiad Simpson, yr adolygiad o adnoddau gwasanaethau rheng flaen, diwygio'r gwasanaethau cymdeithasol a chynllun strategol pum mlynedd y GIG.

O ran y pwynt cyntaf, amcan y gronfa yw darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell yn unol â'n hagenda effeithlonrwydd a gwella ehangach, gan annog cydweithio cryfach ar draws sefydliadau a ffiniau gweinyddol lle y gallwn ganfod yn glir fod hynny'n arwain at fudd mesuradwy o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae eich pwynt am hyrwyddo lledaenu'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau sy'n deillio o'r prosiectau yn allweddol o ran eu cymhwysedd a throsglwyddo arferion da a all godi. Rydym yn targedu prosiectau sy'n cefnogi agweddau allweddol ar agenda effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. O ran sut y mae'r cyllid yn gweithredu a lefel y cymorth sydd ar gael, mae cyfraniadau o hyd at 75% o gostau gweithredu dilys y prosiect ar gael a gellir cael buddsoddiad uwch lle y mae posibilrwydd o ysgogi buddion effeithlonrwydd sylweddol sy'n rhyddhau arian.

O ran yr ad-daliadau, mae'r holl fuddsoddiadau'n ad-daladwy, ac yn ddi-log, ond gellir trafod amodau'r ad-daliadau er mwyn sicrhau hyblygrwydd. Felly, nid oes amodau penodol ar gyfer yr ad-daliadau, ond rydym yn anelu at gytuno ar broffil ad-daliad

delivery of a project while also ensuring the prompt repayment of funding because we want further investments to take place. It is important to recognise that we have had full recovery of all the sums due.

You also make an important point about project proposals that may come forward that do not quite meet the criteria. We have the flexibility of allowing them to come back with revised proposals. It may be that there has not been sufficient collaboration or lessons learned from predecessor projects, but you will see that the announcements that I made today are building on the lessons of the Gwent frailty project, which has been widely trailed as an example of collaboration led by the health service across the five local authorities and the third sector. Lessons are now being learned in the new projects that we are now approving and funding. On best practice guidance, I have referred to the guidance and case studies that we are publishing this month and that we published last year to ensure that the public sector has an indication of what is working, what is appropriate and what is seeking support.

Your point about geographical spread is important, Paul. Obviously, it is not one of the fund's criteria. I can give you more details about the distribution of funding. In fact, Gwent features well, partly because of our investment in the Gwent frailty project. However, Mid and West Wales is on 9%, Swansea bay is on 19%, and North Wales is on 21%. It is also important to recognise that more than half the funding has gone into NHS projects, which have been successful in respect of that collaborative agenda. Therefore, the key point about the invest-to-save fund is that it is delivering efficiency and innovation as part of the public services leadership group, which is very engaged in considering the proposals coming forward and actively stimulating them.

3.00 p.m.

Ieuan Wyn Jones: Rwyf hefyd yn **Ieuan Wyn Jones:** I also welcome the

sy'n galluogi'r prosiect i gael ei gyflwyno'n llwyddiannus ond gan sicrhau hefyd fod yr arian yn cael ei ad-dalu'n brydlon, gan ein bod am i fuddsoddiadau pellach ddigwydd. Mae'n bwysig cydnabod bod yr holl symiau dyledus wedi'u had-dalu'n llawn.

Rydych hefyd yn gwneud pwynt pwysig ynglŷn â chynigion ar gyfer prosiectau a all gael eu gwneud nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf. Mae gennym yr hyblygrwydd i ganiatáu iddynt ddod yn ôl â chynigion diwygiedig. Efallai na fu digon o gydweithio na digon o ddysgu gwersi yn sgîl prosiectau blaenorol, ond fe welwch fod y cyhoeddiadau yr wyf wedi'u gwneud heddiw yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o brosiect eiddilwch Gwent, sydd wedi cael sylw teilwng fel enghraifft o gydweithio dan arweiniad y gwasanaeth iechyd ar draws y pum awdurdod lleol a'r trydydd sector. Bellach, mae gwersi'n cael eu dysgu yn y prosiectau newydd yr ydym yn eu cymeradwyo a'u hariannu. O ran canllawiau arferion gorau, rwyf wedi cyfeirio at y canllawiau a'r astudiaethau achos yr ydym yn eu cyhoeddi y mis hwn ac a gyhoeddwyd gennym y llynedd er mwyn sicrhau bod y sector cyhoeddus yn cael syniad o'r hyn sy'n gweithio, yr hyn sy'n briodol a'r hyn sy'n ceisio cefnogaeth.

Mae eich pwynt am y dosbarthiad daearyddol yn bwysig, Paul. Yn amlwg, nid yw'n un o feini prawf y gronfa. Gallaf roi rhagor o fanylion am ddsbarthiad y cyllid. Yn wir, mae Gwent yn gwneud yn dda, yn rhannol oherwydd ein buddsoddiad ym mhrosiect eiddilwch Gwent. Fodd bynnag, mae Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael 9%, bae Abertawe wedi cael 19%, a Gogledd Cymru wedi cael 21%. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod mwy na hanner yr arian wedi mynd i brosiectau'r GIG, sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn perthynas â'r agenda gydweithio. Felly, y pwynt allweddol am y gronfa buddsoddi i arbed yw ei bod yn sicrhau effeithlonrwydd ac arloesedd fel rhan o grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, sy'n cymryd rhan lawn o ran ystyried y cynigion sy'n dod gerbron ac o ran mynd ati i'w hysgogi.

croesawu'r datganiad gan y Gweinidog. Erbyn hyn, mae hi a'i rhagflaenydd wedi dyrannu £52 miliwn ar gyfer prosiectau buddsoddi i arbed ers 2009 ac mae'n cyhoeddi £12.7 miliwn ychwanegol heddiw, sy'n gwneud cyfanswm o £64.7 miliwn. Sylwais fod y prosiectau newydd i gyd yn y sector iechyd. Er ein bod yn croesawu hynny, gan fod cymaint o bwysau ar y sector yn sgîl y sefyllfa economaidd ac ariannol, mae'n bryder weithiau nad yw'r sectorau eraill yn gwneud y ceisiadau neu nad ydynt o leiaf yn llwyddo yn eu ceisiadau gystal â'r gwasanaeth iechyd.

Mae rhai cwestiynau yn codi yn sgîl cyhoeddiad heddiw. Roeddwn yn gwrandio ar ateb y Gweinidog i gwestiynau gan Paul Davies, yn arbennig am ddyraniad daearyddol y cynlluniau ers 2009. Er bod y Gweinidog wedi cyfeirio at ganrannau yn ei hateb, gall hynny weithiau fod yn gamarweiniol oherwydd nid ydynt yn nodi'r arian sy'n cael ei neilltuo. Felly, a wnaiff y Gweinidog ein hatgoffa—drwy gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth neu mewn llythyr i Aelodau—am y prosiectau sydd wedi cael eu caniatáu hyd yma, a hynny ar sail ddaearyddol? Mae wedi gwneud y pwynt nad yw'n ystyried prosiectau mewn cyd-destun daearyddol wrth iddynt wneud cais, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod pobl yn gwybod pa rannau o Gymru sydd wedi elwa. Byddem ni fel Aelodau wedyn yn gallu perswadio rhai sectorau yn ein hardaloedd ni i wneud mwy o waith ar y cynlluniau hyn.

Yr ail gwestiwn yw: pa sectorau sydd wedi elwa fwyaf? Mae'r Gweinidog wedi dweud yn ei hymateb i Paul Davies fod 50% o'r cynlluniau yn dod o'r gwasanaeth iechyd. Rwy'n credu ei bod yn wir dweud bod byrddau iechyd, yn y gorffennol, wedi bod yn llwyddiannus iawn yn y ceisiadau, ond mae hynny'n gadael y sectorau addysg, tai ac awdurdodau lleol i ofyn pam nad ydynt wedi bod mor llwyddiannus. Gwnaed pwynt ynglŷn â'r ceisiadau sydd wedi cael eu gwrthod; efallai y byddai cyhoeddi'r rheini o leiaf yn caniatáu inni wybod pa sectorau na wnaeth ddigon o waith ar eu cynlluniau.

Mae'r cwestiwn olaf sydd gennyf yn ymwneud ag arbedion gwirioneddol a wnaed.

Minister's statement. By now, the Minister and her predecessor have allocated £52 million for invest-to-save projects since 2009 and she has announced an additional £12.7 million today, which comes to a total of £64.7 million. I noted that the new projects are all in the health sector. Even though this is to be welcomed, given the pressure on the sector as a result of the financial and economic situation, it is a cause of concern at times that other sectors do not make bids or have not been as successful as the health service has been in making bids.

I have some questions in the light of today's statement. I heard the Minister's response to Paul Davies's questions, particularly on the geographical spread of projects since 2009. Although the Minister referred to percentages in her response, these can be misleading at times because they do not set out the actual amounts allocated. Therefore, would the Minister be willing to remind us—by providing the information on the Government website or in a letter to Members—about the geographical spread of projects approved to date? She made the point that she does not consider projects in a geographical context when bids are made, but I think that it is important that people know which parts of Wales have benefited. We as Members could then persuade certain sectors in our areas to do more work on the proposals and bids.

The second question is this: which sectors have benefited most? The Minister said in response to Paul Davies that 50% of the schemes come from the health service. I think it is true to say that, in the past, health boards have been very successful in preparing bids, but that leaves the education, housing and local authority sectors to ask why they have not been as successful. A point was made about rejected applications; perhaps publishing their details would at least allow us to see which sectors did not work hard enough on their proposals.

My final question relates to the real savings that have been made.

I read the statement with interest. The two references to savings in the statement are in the third paragraph, which talks about projected annual savings of at least £74 million. You refer to a Merthyr Tydfil County Borough Council project with a potential of releasing £15 million of efficiency savings over five years. As these schemes have been announced since 2009, there must be schemes that have been concluded since then for which it is possible for us to be told the actual savings that have occurred. Since this is an invest-to-save programme, I think we are entitled, at some point, to be given a list of the actual savings made as a result of the proposals that have been introduced. Will the Minister be prepared to commit herself today to releasing information in relation to those projects? Given that we live in straitened economic and financial times, will the Minister, adding to what I said previously, encourage those sectors who are not already fully engaged in invest-to-save projects to get their act together so that the whole public sector can benefit from something that is an excellent initiative?

Jane Hutt: I thank the finance spokesperson for Plaid Cymru for his response to this statement. I responded on that geographical point in response to Paul Davies earlier and I am very happy to publish the statistics on the geographical spread. On the points raised about the fact that over half of the funding invested has gone to NHS projects, this compares with approximately 42% being paid to local government or local government and partner projects.

I also mentioned in my statement the important project that I visited, as I am sure have other Members who represent that area, namely the Newport information station, which is a local government-led project. The former Newport station, which the Presiding Officer knows well, as do other local and regional Members, is now used effectively as part of a citizen-focused approach by agencies led by local government, but including the third sector with citizen advice bureaux information and advice points, with access to technology and one-stop-shop

Darllenais y datganiad gyda diddordeb. Mae'r ddau gyfeiriad at arbedion yn y datganiad yn y trydydd paragraff, sy'n sôn am o leiaf £74 miliwn o arbedion amcanol yn flynyddol. Rydych yn cyfeirio at brosiect gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a allai ryddhau £15 miliwn o arbedion effeithlonrwydd dros bum mlynedd. Gan fod y cynlluniau hyn wedi cael eu cyhoeddi ers 2009, mae'n rhaid bod cynlluniau wedi cael eu cwblhau ers hynny ac y byddai'n bosibl inni gael gwybod beth yw'r arbedion gwirioneddol sydd wedi digwydd. Gan mai rhaglen buddsoddi i arbed yw hon, credaf bod gennym hawl, ar ryw adeg, i gael rhestr o'r arbedion gwirioneddol a wnaed o ganlyniad i'r cynigion sydd wedi cael eu cyflwyno. A fydd y Gweinidog yn barod i ymrwymo heddiw i ryddhau gwybodaeth mewn perthynas â'r prosiectau hynny? O ystyried ein bod yn byw mewn cyfnod economaidd ac ariannol helbulus, a wnaiff y Gweinidog, gan ychwanegu at yr hyn a ddywedais yn flaenorol, annog y sectorau hynny nad ydynt eisoes yn cymryd rhan gyflawn mewn prosiectau buddsoddi i arbed i gael trefn ar bethau fel bod y sector cyhoeddus cyfan yn gallu elwa o'r fenter ragorol hon?

Jane Hutt: Diolch yn fawr i lefarydd cyllid Plaid Cymru am ei ymateb i'r datganiad hwn. Ymatebais ar y pwynt daearyddol hwnnw mewn ymateb i Paul Davies yn gynharach ac rwy'n falch iawn o gyhoeddi'r ystadegau ar y dosbarthiad daearyddol. O ran y pwyntiau a godwyd am y ffaith bod dros hanner yr arian a fuddsoddwyd wedi mynd at brosiectau yn y GIG, mae hyn yn cymharu â thua 42% yn cael ei dalu i lywodraeth leol neu i lywodraeth leol a phrosiectau mewn partneriaeth.

Bu imi hefyd grybwyll yn fy natganiad y prosiect pwysig yr ymwelais ag ef, ac rwy'n siŵr bod Aelodau eraill sy'n cynrychioli'r ardal honno wedi gwneud yr un modd, sef gorsaf wybodaeth Casnewydd, sy'n brosiect a arweinir gan lywodraeth leol. Mae cyn-orsaf Casnewydd—ac mae'r Llywydd yn gyfarwydd iawn â hi, yn ogystal ag Aelodau lleol a rhanbarthol eraill—yn cael ei defnyddio'n effeithiol bellach fel rhan o ddull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd gan asiantaethau a arweinir gan lywodraeth leol, ond sy'n cynnwys y trydydd sector, gyda

support. It is also important that we recognise that local government can learn lessons, for example, from the Merthyr Tydfil e-procurement project, as identified in the statement, which released £15 million of efficiency savings. If that is the case, where are the other local authorities in responding to that?

This goes to the important point in your question about how this links into the public service reform agenda, which is being taken forward, as I said, under the public services leadership group, and the work stream on collaborative procurement and asset management, which is led by a local government chief executive, namely Tracey Lee, the chief executive of Newport City Council. Local government is clearly aware of the fact that it needs to take this forward in terms of the lessons learned and to put its own proposals forward to benefit from the invest-to-save fund.

I am happy to share the savings that have been made and are forecast to be made over the coming years. I said in my statement, of course, that existing projects have repaid over £8 million, and we have fully reinvested that funding. This year, more than £9 million is due to be repaid and reinvested, with a further £15 million forecast to be repaid next year. I very much welcome the interest in the fund and will be happy to provide more information, as indicated, to Members.

Peter Black: May I also welcome this statement, Minister, and the extra investment that you are putting into this invest-to-save programme. It is important, however, as has been raised by previous speakers, that we are able to properly evaluate this programme. I also share the concerns of Ieuan Wyn Jones about identifying the savings that are being made through this, in terms not just of cash savings, but of how this applies across the public sector. As regards the concerns I have, the Gwent frailty project is a good example. It is a very successful project that has done a huge amount in bringing together public services in Gwent and delivering a better

mannau gwybodaeth a chyngor y gwasanaeth cyngor ar bopeth a mynediad at dechnoleg a chymorth siop un stop. Mae hefyd yn bwysig inni gydnabod y gall llywodraeth leol ddysgu gwersi, er enghraifft, gan brosiect e-gaffael Merthyr Tudful, fel y nodwyd yn y datganiad, a ryddhaodd £15 miliwn o arbedion effeithlonrwydd. Os yw hynny'n wir, ble y mae'r awdurdodau lleol eraill wrth ymateb i hynny?

Mae hyn yn ymwneud â'r pwynt pwysig yn eich cwestiwn ynghylch sut y mae hyn yn cysylltu â'r agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus, sy'n cael ei datblygu, fel y dywedais, o dan grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, a'r ffrwd waith ar gaffael ar y cyd a rheoli asedau, a arweinir gan brif weithredwr llywodraeth leol, sef Tracey Lee, prif weithredwr Cyngor Dinas Casnewydd. Mae llywodraeth leol yn amlwg yn ymwybodol o'r ffaith bod angen datblygu hyn o ran y gwersi a ddysgwyd a chyflwyno'i gynigion ei hun i elwa o'r gronfa buddsoddi i arbed.

Rwy'n fodlon rhannu'r arbedion a wnaed ac y rhagwelir y byddant yn cael eu gwneud dros y blynyddoedd nesaf. Dywedais yn fy natganiad, wrth gwrs, bod prosiectau presennol wedi ad-dalu dros £8 miliwn, ac rydym wedi ailfuddsoddi'r arian hwnnw'n llawn. Eleni, bydd mwy na £9 miliwn yn cael ei ad-dalu a'i ailfuddsoddi, a rhagwelir y bydd £15 miliwn ychwanegol yn cael ei ad-dalu y flwyddyn nesaf. Rwy'n croesawu'n fawr y diddordeb yn y gronfa a byddaf yn fodlon rhoi rhagor o wybodaeth, fel y nodwyd, i Aelodau.

Peter Black: Hoffwn innau groesawu'r datganiad hwn, Weinidog, a'r buddsoddiad ychwanegol yr ydych yn ei roi i'r rhaglen buddsoddi i arbed. Mae'n bwysig, fodd bynnag, fel y mae siaradwyr blaenorol wedi dweud, ein bod yn gallu gwerthuso'r rhaglen hon yn briodol. Rwyf hefyd yn pryderu, fel y mae Ieuan Wyn Jones, am nodi'r arbedion a wneir drwy hyn, nid yn unig o ran arbedion ariannol, ond hefyd o ran sut y mae hyn yn berthnasol ar draws y sector cyhoeddus. O ran fy mhryderon, mae rhaglen eiddilwch Gwent yn enghraifft dda. Mae'n brosiect llwyddiannus iawn sydd wedi gwneud llawer iawn o ran dod â gwasanaethau cyhoeddus

service for people. The service was made possible by some £9 million from the invest-to-save fund from the Welsh Government. If you were to seek to replicate that service elsewhere in Wales, you would most probably need similar funding from the Welsh Government. Therefore, the opportunity to roll out good practice from that particular project is dependent on similar resources being made available for what is no longer an innovative project, but one that could become a mainstream project around Wales. Therefore, the question is how you turn innovative projects that have proven to be successful as a result of invest-to-save funding into mainstream projects across Wales without having to put in substantial extra resources and sustain them. I would be grateful for your views on that, Minister.

There also needs to be an evaluation of outcomes as well as the savings from projects, and I would be interested to know what performance indicators you apply when you come to evaluate those projects. How do you determine whether a project has been successful in what it has sought to achieve and how do you determine whether that project has delivered the sort of savings that you looked for? Are you just interested in monetary savings or are you looking for a better quality of project and better working together across the public sector? All those criteria demand a much more detailed report from the Government on this than is possible in an oral statement. It would be useful, Minister, if you were to consider providing a written report so that we could evaluate and scrutinise properly through one of the Assembly committees—possibly the Finance Committee.

Jane Hutt: I thank the Member for that very important contribution. In terms of evaluating the programme and gaining clarity about the cash savings and the focus on innovation and efficiency, I think that it would be very appropriate for me to come forward with my officials to clarify those points, if the Finance Committee felt that that would be appropriate. The point about the Gwent frailty programme is that it was a pioneer in

ynghyd a darparu gwell gwasanaeth i bobl. Roedd y gwasanaeth yn bosibl oherwydd y £9 miliwn a roddwyd o'r gronfa buddsoddi i arbed gan Lywodraeth Cymru. Pe baech yn ceisio ail-greu'r gwasanaeth hwnnw mewn manau eraill yng Nghymru, mae'n debyg y byddai angen cyllid tebyg gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae'r cyfle i gyflwyno arferion da o'r prosiect penodol hwnnw'n dibynnu ar ddarparu adnoddau tebyg ar gyfer rhywbeth nad ydyw bellach yn brosiect arloesol, ond yn rhywbeth a allai ddod yn brosiect brif ffrwd ledled Cymru. Felly, y cwestiwn yw sut yr ydych yn troi prosiectau arloesol sydd wedi profi eu bod yn llwyddiannus o ganlyniad i arian buddsoddi i arbed yn brosiectau prif ffrwd ar draws Cymru, heb orfod cynnig adnoddau ychwanegol sylweddol a chynnal yr adnoddau hynny. Byddwn yn ddiolchgar o glywed am eich barn am hynny, Weinidog.

Rhaid cael gwerthusiad hefyd o ganlyniadau yn ogystal â'r arbedion yn sgîl prosiectau, a hoffwn wybod pa ddangosyddion perfformiad a ddefnyddiwyd wrth werthuso'r prosiectau hynny. Sut yr ydych yn penderfynu a yw prosiect wedi bod yn llwyddiannus o ran yr hyn yr oedd yn ceisio'i gyflawni a sut yr ydych yn penderfynu a yw'r prosiect wedi esgor ar y math o arbedion yr oeddech yn gobeithio eu cael? Ai arbedion ariannol yn unig sydd o ddiddordeb ichi neu a ydych chi'n chwilio am brosiect sydd o ansawdd gwell ac am well cydweithio ar draws y sector cyhoeddus? Mae'r holl feini prawf hynny'n gofyn am adroddiad llawer manylach gan y Llywodraeth ar hyn nag sy'n bosibl mewn datganiad llafar. Byddai'n ddefnyddiol, Weinidog, pe baech yn ystyried darparu adroddiad ysgrifenedig er mwyn inni allu gwerthuso a chraffu'n briodol drwy un o bwyllgorau'r Cynulliad—y Pwyllgor Cyllid o bosibl.

Jane Hutt: Diolch i'r Aelod am y cyfraniad pwysig iawn hwnnw. O ran gwerthuso'r rhaglen a chael eglurder ynghylch yr arbedion ariannol a'r ffocws ar arloesi ac effeithlonrwydd, credaf y byddai'n briodol iawn imi ddod gerbron gyda'm swyddogion i egluro'r pwyntiau hynny, os mai dyna sy'n briodol ym marn y Pwyllgor Cyllid. Y pwynt ynghylch rhaglen eiddilwch Gwent yw ei bod yn arloesol o ran y £9 miliwn a fuddsoddiwyd

comments on this. I welcome the involvement of Tanni Grey-Thompson, and I hope that the Olympics and Paralympics will provide a new generation of role models. However, I want to press the issue of the particular measures that we can take to get more girls interested in sporting activities. It is right that we try to understand this better. There may be some deep-seated reasons why that is the case, particularly when it comes to girls from poorer backgrounds. As you said, Minister, there is a huge range of academic research on this, but it is a question of our looking at this research and trying to drill down and come up with some practical solutions. One piece of academic research, which is quite old now but did strike me a few years ago, showed that even when girls and boys undertake sport on a fairly equal basis, as they get older and possibly get married or go into relationships and have families, it is the women who do less sport, while the men continue. That is an issue and shows that it is not just a problem for women, but for wider society. If we want to do something about this, we need to address it head on. Also on this issue, although the research is a few years old, I know that team games have helped to reduce the rates of teenage pregnancy in other European countries. I think that the Netherlands was quoted. Therefore, it is a good solution if we can get this right.

Moving to my second point, Mark Isherwood talked about unstructured physical activity, and I think that that is absolutely right. I am pleased that it forms part of the statement, because we know the importance of unstructured physical activity in ensuring healthy lifestyles and in teaching valuable life skills. It is what the sociologist Frank Furedi defines as 'the ability to cope', which I think is really important. We know, for example, from the work by Richard Reeves that the sense of wanting to protect our children from a range of real and perceived dangers is central to parents prohibiting their children from playing outdoors. Even within a generation, we know that children are playing

chwaraeon, ac rwy'n ategu sylwadau'r Aelodau eraill ar hyn. Croesawaf gyfranogiad Tanni Grey-Thompson, a gobeithiaf y bydd y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn darparu cenhedlaeth newydd o fodolau rôl. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio'r mesurau penodol y gallwn eu cymryd i sicrhau bod mwy o ferched yn ymddiddori mewn chwaraeon. Mae'n briodol ein bod yn ceisio deall hyn yn well. Efallai y bydd rhai rhesymau sylfaenol pam bod hynny'n wir, yn enwedig o ran merched o gefndiroedd tlawd. Fel y dywedasoch, Weinidog, mae ystod eang o waith ymchwil academiaidd ar hyn, ond mae'n fater o edrych ar y gwaith ymchwil hwnnw a cheisio turio iddo er mwyn cael rhai atebion ymarferol. Rai blynyddoedd yn ôl, cefais fy nharo gan un darn o waith ymchwil academiaidd, sy'n eithaf hen erbyn hyn, a ddangosodd, hyd yn oed pan fydd merched a bechgyn yn ymgymryd â chwaraeon yn weddol gyfartal, wrth iddynt fynd yn hŷn ac o bosibl yn priodi neu'n dechrau perthynas ac yn cael teuluoedd, y menywod sy'n gwneud chwaraeon yn llai aml, tra bod y dynion yn parhau. Mae hynny'n broblem ac yn dangos nid yn unig bod hyn yn broblem i ferched, ond i'r gymdeithas ehangach hefyd. Os ydym am wneud rhywbeth am y sefyllfa hon, mae angen mynd i'r afael â hi yn uniongyrchol. Hefyd ar y mater hwn, er bod yr ymchwil ychydig flynyddoedd oed, gwn fod gemau tîm wedi helpu i leihau cyfraddau beichiogrwydd yn yr arddegau mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Credaf fod yr Iseldiroedd wedi'i grybwyll fel esiampl. Felly, mae'n ateb da os allwn wneud hyn yn iawn.

Gan symud at fy ail bwynt, soniodd Mark Isherwood am weithgarwch corfforol distrwythur, ac rwy'n meddwl bod hynny'n gwbl gywir. Rwy'n falch ei fod yn ffurfio rhan o'r datganiad, oherwydd ein bod yn gwybod am bwysigrwydd gweithgarwch corfforol distrwythur o ran sicrhau ffyrdd iach o fyw ac wrth addysgu sgiliau bywyd gwerthfawr. Mae'r hyn y diffiniodd y cymdeithasegwr Frank Furedi fel y gallu i ymdopi, yn fy marn i, yn wirioneddol bwysig. Gwyddom, er enghraifft, o waith Richard Reeves bod y teimlad ein bod am amddiffyn ein plant rhag ystod o beryglon gwirioneddol a chanfyddedig yn ganolog i rieni'n gwahardd plant rhag chwarae yn yr

outside far less than they did in the past and, of course, that has an impact on their future health levels.

Therefore, Minister, what is the Government doing to help to tackle these fears and to ensure that parents feel safe letting their children out to enjoy active lifestyles? In respect of the rest of your portfolio—regeneration and housing and so on—what can you tell me about how these aspects are being incorporated into the strategies that you have undertaken for this?

Huw Lewis: I thank Chris Chapman, the Member for the Cynon Valley, for those points. She is quite right to point out that there are deep and strong forces at work here, working against this agenda. She is right to say that there is a socioeconomic effect. It is not just the gender effect; it is also an effect that is connected to the relative prosperity of a child's family, the least well-off being the least active. She is right to point out that a great deal of research shows us that there is definitely a gender-driven and perhaps a body-image-driven problem at work here. She is also right to point out—at least I cannot point to a study on this, but I agree that there is anecdotal evidence of this—that the attitude of parents particularly to the risk of outdoor play and activity has changed over the past couple of decades, and that is a problem.

Chris Chapman's questions are almost too big to answer in this statement, but I can assure her that I will be taking them on board, as a result of this piece of work with the task and finish group, and taking an expanded look at how schools can help with that activity agenda in the wider sense. It will be about outside space and physical activity in the round and how the school plays a part, working alongside parents in that regard. I will also undertake to meet with my colleague, the Deputy Minister for children, to take another look at how parents' attitudes towards risk and outdoor play opportunities can be developed alongside this agenda.

awyr agored. Hyd yn oed o fewn cenhedlaeth, gwyddom fod plant yn cael chwarae y tu allan lawer yn llai aml nag yr oeddent yn y gorffennol ac, wrth gwrs, mae hynny'n cael effaith ar eu lefelau iechyd yn y dyfodol.

Felly, Weinidog, beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac i sicrhau bod rhieni'n teimlo'n ddiogel wrth adael i'w plant fynd allan i fwynhau ffyrdd gweithgar o fyw? O ran gweddill eich portffolio—adfywio a thai ac yn y blaen—beth allwch ddweud wrthyf am y ffordd y mae'r agweddau hyn yn cael eu hymgorffori yn y strategaethau rydych wedi'u rhoi ar waith i'r perwyl hwn?

Huw Lewis: Diolch i Chris Chapman, yr Aelod dros Gwm Cynon, am y pwyntiau hynny. Mae hi'n llygaid ei lle i nodi bod grymoedd dwfn a chryf ar waith yma, yn gweithio yn erbyn yr agenda hwn. Mae hi'n gywir i ddweud bod effaith economaidd-gymdeithasol. Nid rhywedd yn unig sy'n cael effaith; mae hefyd effaith sydd wedi'i gysylltu â ffyniant cymharol teulu plentyn, a'r lleiaf cefnog yw'r lleiaf gweithgar. Mae hi'n iawn i nodi bod llawer iawn o ymchwil yn dangos yn bendant mai problem a effeithir gan rhywedd a delwedd gorfforol sydd ar waith yma. Mae hi hefyd yn iawn i dynnu sylw—o leiaf ni allaf dynnu sylw at astudiaeth ar hyn, ond rwy'n cytuno bod tystiolaeth anecdotaidd o hyn—at y modd y mae agwedd rhieni tuag at y perygl o chwarae yn yr awyr agored wedi newid dros y ddwy ddegawd ddiwethaf, ac mae hynny'n problem.

Roedd cwestiynau Chris Chapman bron yn rhy fawr i'w hateb yn y datganiad hwn, ond gallaf roi sicrwydd iddi y byddaf yn eu hystyried, o ganlyniad i'r darn hwn o waith gyda'r grŵp gorchwyl a gorffen, ac wrth fwrw golwg ehangach ar sut y gall ysgolion helpu gyda'r agenda gweithgarwch yn yr ystyr ehangach. Bydd yn ymwneud â manau chwarae awyr agored a gweithgarwch corfforol yn ei gyfanrwydd a sut mae'r ysgol yn chwarae rhan wrth weithio ochr yn ochr â rhieni yn y cyswllt hwnnw. Byddaf hefyd yn ymrwmo i gwrdd â'm cyd-Weinidog, y Dirprwy Weinidog dros blant, i fwrw golwg arall ar sut y gall agweddau rhieni tuag at risg

a chyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored gael eu datblygu ochr yn ochr â'r agenda hon.

Gofal Iechyd y Llygaid yng Nghymru Eye Health Care in Wales

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2, 3, 4 and 5 in the name of William Graham, amendment 6 in the name of Aled Roberts and amendment 7 in the name of Jocelyn Davies.

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3, 4 a 5 yn enw William Graham, gwelliant 6 yn enw Aled Roberts a gwelliant 7 yn enw Jocelyn Davies.

Cynnig NDM5009 Jane Hutt

Motion NDM5009 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yma i wella gofal iechyd y llygaid; a

1. Notes the progress made to-date to improve eye health care; and

2. Yn cydnabod bod yna fwy o waith i'w wneud ac y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun yn amlinellu ei hymrwymiad i wella gofal iechyd y llygaid ar gyfer pobl Cymru ymhellach fel rhan o raglen iechyd y cyhoedd ehangach.

2. Recognises that there is more work to be done and that the Welsh Government will be developing a plan setting out its commitment to further improve eye health care for the people of Wales as part of a wider public health programme.

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): I move the motion.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Cynigiau y cynnig.

I would like to provide Members with an update on the good work that we have undertaken in Wales in relation to eye health care and to set out our plans for further improvements to services. Our Wales eye care initiative leads the way in the UK and is recognised as a significant advance in the provision of eye care services. This initiative aims to preserve sight, through the early detection of eye disease, and to provide support to those who have low vision and whose sight is unlikely to improve.

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y gwaith da yr ydym wedi'i wneud yng Nghymru mewn perthynas â gofal iechyd y llygaid, ac i nodi ein cynlluniau ar gyfer gwelliannau pellach i wasanaethau. Mae ein menter gofal llygaid Cymru yn arwain y ffordd yn y DU ac yn cael ei gydnabod fel cam sylweddol ymlaen yn narpariaeth gwasanaethau gofal llygaid. Mae'r fenter hon yn anelu at gadw golwg, drwy ganfod clefyd llygaid yn gynnar, ac at roi cymorth i'r rhai sydd â golwg gwan a'r rhai y mae eu golwg yn annhebygol o wella.

The Wales eye care initiative includes the diabetic retinopathy screening service and the eye health examination, as well as the low-vision service. The diabetic retinopathy screening service is unique in its field and aims to preserve sight through the early detection of eye disease. Its key purpose is to detect diabetic retinopathy. However, the

Mae menter gofal llygaid Cymru yn cynnwys y gwasanaeth sgrinio retinopathi diabetig a'r archwiliad iechyd llygaid, yn ogystal â'r gwasanaeth golwg gwan. Mae'r gwasanaeth sgrinio retinopathi diabetig yn unigryw yn ei faes, a'i nod yw cadw golwg drwy ganfod clefyd y llygaid yn gynnar. Ei brif bwrpas yw canfod retinopathi diabetig. Fodd bynnag,

screening is sophisticated enough to detect other lesions also. With early identification of eye care problems, patients are quickly referred to accredited optometrists, GPs or the hospital eye service to receive the appropriate treatment.

We have established the Wales eye health examination to ensure that those people who are vulnerable to eye disease can visit an accredited optometrist to receive a thorough check and diagnosis of any potential problems. Again, this enables referral for early and timely treatments as appropriate.

The low-vision service aims to provide help to those who have visual impairment for whom further treatment would not be beneficial. The service provides a range of aids to help people in their day-to-day life and to maintain independence as far as possible. The aids now provided are much more user-friendly, compact and sophisticated than in previous years.

All services are provided by community-based optometrists who have gained accreditation by undertaking specific training in the assessment of patients and the provision of low-vision aids. Direct referrals into the service are accepted from GPs, ophthalmologists, optometrists, social services and, importantly, from patients themselves.

The Wales optometric postgraduate education centre provides the training and accreditation for optometrists relating to the Wales eye care initiative and is the first postgraduate centre for optometry in the world. More recently, we have established our Focus On pathways for glaucoma, age-related macular degeneration and unscheduled care. These ensure the provision of integrated eye care services to improve the diagnosis, treatment and care of patients. Further pathways, which will include cataracts, are being developed and will begin to be implemented over the coming year. The Focus On pathway is a good example of health professionals working together across primary and

mae'r sgrinio yn ddigon soffistigedig i ganfod namau eraill hefyd. Wrth ganfod problemau gofal llygaid yn gynnar, mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio'n gyflym at optometryddion achrededig, meddygon teulu neu i'r gwasanaeth llygaid mewn ysbyty i gael y driniaeth briodol.

Rydym wedi sefydlu prawf iechyd llygaid Cymru i sicrhau y gall y bobl hynny sydd mewn perygl o gael clefyd y llygaid ymweld ag optometrydd achrededig i gael prawf trylwyr a diagnosis ar gyfer unrhyw broblemau posibl. Eto, mae hyn yn galluogi atgyfeirio ar gyfer triniaethau cynnar ac amserol fel y bo'n briodol.

Mae'r gwasanaeth golwg gwan yn anelu at ddarparu cymorth i'r rhai sydd â nam ar eu golwg na fyddai triniaeth bellach yn fuddiol iddynt. Mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o gymhorthion i helpu pobl yn eu bywyd dyddiol ac i gynnal eu hannibyniaeth cyn belled ag y bo modd. Mae'r cymhorthion a ddarparwyd yn awr yn llawer haws eu defnyddio, yn fwy cryno ac yn fwy soffistigedig nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae pob gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan optometryddion yn y gymuned sydd wedi ennill achrediad drwy gael hyfforddiant penodol o ran asesu cleifion a darparu cymhorthion golwg gwan. Derbynnir atgyfeiriadau uniongyrchol i'r gwasanaeth gan feddygon teulu, offthalmolegwyr, optometryddion, gwasanaethau cymdeithasol ac, yn bwysig, gan y cleifion eu hunain.

Mae canolfan addysg ôl-raddedig optometreg Cymru yn darparu'r hyfforddiant a'r achrediad ar gyfer optometryddion yn ymwneud â menter gofal llygaid Cymru, a dyma'r ganolfan ôl-raddedig cyntaf yn y byd ar gyfer optometreg. Yn fwy diweddar, rydym wedi sefydlu ein llwybrau sydd â ffocws ar glawcoma, dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran a gofal heb ei drefnu. Mae'r rhain yn sicrhau y darperir gwasanaethau gofal llygad integredig i wella diagnosis, triniaeth a gofal cleifion. Mae llwybrau pellach, a fydd yn cynnwys cataractau, yn cael eu datblygu a byddant yn dechrau cael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r llwybrau hyn yn

secondary care to improve services for patients.

We need to ensure that every part of Wales has services that meet the needs of the local community. Therefore, the programme for government sets out our commitment to establish ophthalmic and diagnostic treatment centres throughout Wales to further improve services for patients. These services are all unique to Wales and are providing high-quality services and support to people who have eye care problems.

While the Wales eye care initiative and the Focus On pathways have been extremely successful, the increasing age of the population has led to an increased demand. Therefore, it is time to further develop, modernise and improve eye care services and support. We are currently developing an eye health care plan for Wales, which will set out our priorities for the next five years.

We need to raise public awareness of eye health care and ensure that people are aware of the importance of having regular sight tests. This includes people of all ages. For children, we are committed to ensuring that there is a comprehensive screening programme across Wales. There are also age-related conditions and people who are particularly vulnerable to eye disease, and we need specifically to target those at risk to ensure that their eyes are examined as early as possible. This will enable early diagnosis and treatment to preserve their sight.

Loss of sight is devastating, and we will do everything that we can to prevent it happening. We will also ensure that people receive the physical and the emotional support that they need to minimise its impact on their quality of life. I have recently committed to making avoidable sight loss a public health priority in a debate in the Chamber on 9 May. We are committed to ensuring that the people of Wales have access to the highest quality eye care services and support, including general advice on eye health care, good-quality screening and early

enghraifft dda o weithwyr iechyd proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd i wella gwasanaethau i gleifion.

Mae angen inni sicrhau bod gan bob rhan o Gymru wasanaethau sy'n diwallu anghenion y gymuned leol. Felly, mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad i sefydlu canolfannau triniaeth offthalmig a diagnostig ledled Cymru i wella gwasanaethau i gleifion. Mae'r gwasanaethau hyn oll yn unigryw i Gymru ac yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth o safon uchel i bobl sydd â phroblemau gofal llygaid.

Er bod menter gofal llygaid Cymru a'r llwybrau y soniais amdanynt wedi bod yn hynod lwyddiannus, mae oedran cynyddol y boblogaeth wedi arwain at fwy o alw. Felly, mae'n bryd i ddatblygu gwasanaethau gofal a chymorth llygaid ymhellach, yn ogystal â'u moderneiddio a'u gwella. Rydym wrthi'n datblygu cynllun gofal iechyd llygaid ar gyfer Cymru, a fydd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch gofal iechyd llygaid a sicrhau bod pobl yn ymwybodol o bwysigrwydd cael profion llygaid rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys pobl o bob oed. Ar gyfer plant, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod rhaglen sgrinio gynhwysfawr ledled Cymru. Mae hefyd cyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran a phobl sydd â risg arbennig o gael clefyd llygaid, ac mae angen targedu'r rheini yn benodol i sicrhau bod eu llygaid yn cael eu harchwilio cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn galluogi diagnosis cynnar a thriniaeth er mwyn iddynt gadw eu golwg.

Mae colli golwg yn ddinistriol, a byddwn yn gwneud popeth y gallwn i atal hyn rhag digwydd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth gorfforol ac emosiynol sydd ei hangen arnynt i leihau'r effaith ar ansawdd eu bywydau. Yn ddiweddar, ymrwymais i wneud colli golwg mewn modd y gellir ei osgoi yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus mewn dadl yn y Siambr ar 9 Mai. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl Cymru yn cael mynediad at wasanaethau a chymorth gofal llygaid o'r ansawdd uchaf, yn cynnwys cyngor cyffredinol ar ofal iechyd

access to diagnosis and treatment. I look forward to listening to Members' contributions to this important debate.

llygaid, sgrinio o ansawdd da a mynediad cynnar at ddiagnosis a thriniaeth. Edrychaf ymlaen at wrando ar gyfraniadau Aelodau i'r ddadl bwysig hon.

Gwelliant 1 William Graham

Amendment 1 William Graham

Ym mhwynt 1, dileu 'camau a gymerwyd hyd yma' a rhoi 'datblygiadau a wireddwyd gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector' yn ei le.

In point 1 delete 'progress made to date' and replace with 'advances realised by the public, private and third sectors'.

Gwelliant 2 William Graham

Amendment 2 William Graham

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl 'i'w wneud,' a rhoi'r canlynol yn ei le:

In point 2 delete all after 'done' and replace with:

'ac y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gydlyn rhaglen iechyd y cyhoedd ehangach a fydd yn ymgorffori newidiadau mewn prosesau monitro a chasglu data, sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi cynlluniau gwasanaethau a gwaith hybu iechyd y llygaid mwy gwybodus'.

'and this will require the Welsh Government to co-ordinate a wider public health programme which will incorporate improvements in data collection and monitoring which are needed to enable more informed service planning and eye health promotion work'.

Gwelliant 3 William Graham

Amendment 3 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn cydnabod y cynnydd sy'n deillio o Strategaeth Olwg Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynlluniau gofal llygaid yn y dyfodol yn cysylltu â'r gwaith hwn ac yn adeiladu arno.

Acknowledges the progress arising from the Wales Vision Strategy and calls on the Welsh Government to ensure the future eye care plan links to and builds on this work.

Gwelliant 4 William Graham

Amendment 4 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi toriadau Llywodraeth Cymru i gyllideb y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a oedd yn fwy nag erioed o'r blaen, a bod modd i'r rhain beryglu'r broses o weithredu'r cynllun gofal iechyd llygaid.

Notes the Welsh Government's record-breaking cuts to the Welsh National Health Service budget and that these have the potential to jeopardise the implementation of an eye health care plan.

Gwelliant 5 William Graham

Amendment 5 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol i sicrhau bod gostyngiad mesuradwy mewn achosion o golli golwg y mae modd eu hosgoi

Welcomes cross party support for making a measurable reduction in avoidable sight loss a public health priority for Wales.

yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

William Graham: I move amendments 1, 2, 3, 4 and 5 in my name.

More than 100,000 people in Wales are living with some form of sight loss, and this number is, sadly, expected to double by 2035. Every day, 100 people in the United Kingdom will start to lose their sight. Figures from the RNIB reveal that two thirds of children do not have a regular eye health check. As many as one in 10 children could be suffering from undiagnosed problems, which could include short-sightedness or squinting, thus preventing them from reading a blackboard or completing their school work properly.

5.30 p.m.

It is important to note the work of, and the advances made by, the private and third sectors, particularly organisations like Sight Support, formerly known as the Gwent Association for the Blind. The director of the Royal College of Nursing in Wales has said that Wales is making progress in trying to overcome inconsistent and patchy services in eye health care, using groups such as the Welsh Eye Care Initiative and the Wales Glaucoma Alliance. In January last year, Optometry Wales said that optometrists wanted to take the lead in improving eye health care in Wales, but it warned that services were at risk from the failure of successive Governments to use optometrists to their full potential and the closure of small and rural practices. The Royal College of Nursing noted in June last year how waiting times have increased massively in Wales. It said that the hospital eye service is now struggling to meet demand. The number of people waiting to begin ophthalmology treatment on the NHS has risen by 13% over the year to March 2012. The number of people waiting over 26 weeks has risen by 68% over the same period.

William Graham: Cynigiau welliannau 1, 2, 3, 4 a 5 yn fy enw.

Mae mwy na 100,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda rhyw fath o nam ar eu golwg, ac, yn anffodus, disgwylir i'r nifer hwn ddyblu erbyn 2035. Bob dydd, bydd 100 o bobl yn y Deyrnas Unedig yn dechrau colli eu golwg. Mae ffigurau o'r RNIB yn datgelu nad yw dwy ran o dair o blant yn cael prawf iechyd llygaid rheolaidd. Gall cynifer ag un o bob 10 o blant fod yn dioddef problemau sydd heb eu canfod, a allai gynnwys pobl sy'n fyr eu golwg, sy'n golygu eu bod yn cael trafferth darllen bwrdd du neu gwblhau eu gwaith ysgol yn iawn.

Mae'n bwysig nodi gwaith y sector preifat a'r trydydd sector, a'r datblygiadau a wnaed ganddynt, yn enwedig gan sefydliadau fel Sight Support, yr enw newydd ar Gymdeithas y Deillion Gwent. Mae cyfarwyddwr Coleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru wedi dweud bod Cymru yn gwneud cynnydd wrth geisio goresgyn gwasanaethau anghyson a bylchog mewn gofal iechyd llygaid, gan ddefnyddio grwpiau fel Menter Gofal Llygaid Cymru a Chynghrair Glawcoma Cymru. Ym mis Ionawr y llynedd, dywedodd Optometreg Cymru fod optometryddion yn awyddus i gymryd yr awenau o ran gwella gofal iechyd llygaid yng Nghymru, ond mae'n rhybuddio bod gwasanaethau mewn perygl oherwydd methiant y naill Lywodraeth ar ôl y llall i ddefnyddio optometryddion hyd at eu potensial llawn ac oherwydd cau practisau bach a gwledig. Nododd Coleg Brenhinol y Nyrsys ym mis Mehefin y llynedd sut yr oedd amseroedd aros wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru. Dywedodd fod y gwasanaeth llygaid mewn ysbytai bellach yn ei chael yn anodd ateb y galw. Mae nifer y bobl sy'n aros i ddechrau cael triniaeth offthalmoleg ar y GIG wedi cynyddu 13% dros y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2012. Mae nifer y bobl sy'n aros dros 26 wythnos wedi codi 68% yn ystod yr un cyfnod.

Incorporating improvements in data Bydd ymgorffori gwelliannau mewn casglu a

collection and monitoring, which are needed, will enable more informed service planning and eye health promotion work. The RNIB states that, as things stand, there is very little information being collected on outpatients, resulting in services being planned without any detailed understanding of prevalence or demand. The RNIB would like to see the Welsh Government working with health boards to design and implement more robust data collection and reporting systems. Health boards should be required to publish data on those at risk of sight loss as part of their needs assessments. The Welsh Conservatives would like to see the Welsh Government working with providers to collect data in relation to sight tests paid for privately, and also to look to reform the way that general ophthalmic services data is collected for free eye tests, so that it is possible to get a more accurate picture of those patients. If we had a better picture of who was having regular eye tests, campaigns aimed at increasing the numbers going for eye tests could be more effectively targeted and evaluated.

The Welsh Government's forthcoming eye care plan should link to the Wales vision strategy. The UK vision strategy was produced by a coalition of organisations in 2008, in response to the World Health Organization's Vision 2020 initiative for the elimination of avoidable blindness. In Wales, an advisory group of professionals working across the public, private and third sectors produced the 'Wales Vision Strategy Implementation Plan 2010 to 2014', to co-ordinate the delivery of the UK vision strategy in Wales. Despite not being an official Government strategy, it is supported by the Welsh Government. By working in partnership, the implementation group has made significant progress in a number of key areas, and we are keen that the eye care plan links to, and builds on, these achievements.

The RNIB states that it would be counterproductive to have two sets of similar, but not quite matching, objectives that the same sets of people are trying to work

monitro data, y mae eu hangen, yn galluogi cynllunio gwasanaeth mwy gwybodus a rhagor o waith i hybu iechyd llygaid. Dywed yr RNIB, fel y mae pethau ar hyn o bryd, mai ychydig iawn o wybodaeth sy'n cael ei chasglu am gleifion allanol, sy'n arwain at gynllunio gwasanaethau heb dealltwriaeth fanwl o nifer yr achosion na'r galw. Byddai'r RNIB yn hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd i gynllunio a gweithredu systemau casglu a chofnodi data sy'n fwy cadarn. Dylai byrddau iechyd orfod cyhoeddi data ar y rhai sydd mewn perygl o golli eu golwg fel rhan o'u hasesiadau o anghenion. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darparwyr i gasglu data ar brofion golwg y telir amdanynt yn breifat, a hefyd i edrych i ddiwygio'r ffordd y mae data gwasanaethau offthalmig cyffredinol yn cael eu casglu ar brofion llygaid am ddim, fel ei bod yn bosibl cael darlun mwy cywir o'r cleifion hynny. Petai gennym well darlun ynghylch pwy oedd yn cael profion llygaid rheolaidd, gallai ymgyrchoedd sydd wedi'u hanelu at gynyddu'r niferoedd sy'n mynd am brofion llygaid gael eu targedu a'u gwerthuso yn fwy effeithiol.

Dylai cynllun gofal llygaid Llywodraeth Cymru, sydd ar y gweill, gysylltu â strategaeth olwg Cymru. Lluniwyd strategaeth olwg y DU gan glymblaid o sefydliadau yn 2008, a hynny mewn ymateb i fenter Vision 2020 Sefydliad Iechyd y Byd i ddileu dallineb y gellir ei osgoi. Yng Nghymru, cyhoeddodd grŵp ymgynghorol o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector 'Strategaeth Olwg Cymru: Cynllun Gweithredu 2010 i 2014', i gydlyn cyflwyno strategaeth olwg y DU yng Nghymru. Er nad yw'n strategaeth swyddogol gan y Llywodraeth, mae'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru. Drwy weithio mewn partneriaeth, mae'r grŵp gweithredu wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd allweddol, ac rydym yn awyddus i'r cynllun gofal llygaid gysylltu â'r cyflawniadau hyn ac adeiladu arnynt.

Dywed yr RNIB y byddai'n wrthgynhyrchiol cael dwy set o amcanion, sy'n debyg i'w gilydd ond nad ydynt yn cyfateb yn union i'w gilydd, y mae'r un setiau o bobl yn ceisio

towards. The Welsh Conservatives welcome cross-party support for making a measurable reduction in avoidable sight loss a public health priority for Wales. I will remind you of the remarks made by my colleague Suzy Davies on 9 May. She said:

‘Unlike many conditions, preventable sight loss may not require huge changes in lifestyle, and may not even have any personal financial implications. For some, all that it will ever mean is a regular free eye check and free prescription glasses.’

We must remember that not all sight loss is preventable, but 50% of sight loss is preventable. However, despite tests being free for many people, and despite the implementation plan being in its third year, uptake is surprisingly low. Less than half of older people in Wales are taking up the test entitlement; just as worrying is the fact that almost a third of children are failing to get their eyes tested. Optometry Wales states that, at present, it is still working under the 1948 terms of service, which are not fit for purpose. Optometry is the only contractor profession in Wales not to have a modernised contract. Wales has been left behind by England and Scotland, which have both recently had new contracts. Despite ministerial agreement, the current and previous Governments have not yet delivered a contract for optometry in Wales. Optometric care has evolved and optometry is now able to deliver high-quality clinical care from well-equipped practices in the community. The uptake of eye examinations in Scotland has increased significantly since the new contract was introduced, helping to prevent sight loss and ease pressure on secondary care.

Dealing with avoidable sight loss would ultimately save public money. The estimated direct costs of sight loss are £113 million, and the indirect costs run to £325 million. More importantly, however, it would end the misery and depression that sight loss causes

gweithio i’w cyflawni. Mae’r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu’r gefnogaeth drawsbleidiol i wneud lleihad mesuradwy mewn achosion o golli golwg y gellir eu hosgoi yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus i Gymru. Fe’ch atgoffaf o’r sylwadau a wnaed gan fy nghyd-Aelod Suzy Davies ar 9 Mai. Dywedodd:

‘Yn wahanol i lawer o gyflyrau, mae’n bosibl na fydd atal achosion o golli golwg yn gofyn am newidiadau enfawr i ffordd o fyw, ac mae’n bosibl na fydd hyd yn oed yn arwain at oblygiadau ariannol personol. I rai, y cyfan y bydd yn ei olygu yw cael prawf llygaid rhad ac am ddim yn rheolaidd a chael sbectol rad ac am ddim ar bresgripsiwn.’

Rhaid inni gofio na ellir atal pob achos o golli golwg, ond gellir atal 50% ohonynt. Fodd bynnag, er gwaethaf profion am ddim i lawer o bobl, ac er gwaethaf y ffaith bod y cynllun gweithredu yn ei drydedd flwyddyn, mae’r nifer sy’n manteisio ar brofion am ddim yn rhyfeddol o isel. Llai na hanner y bobl hŷn yng Nghymru sy’n mynd am brofion; yr un mor bryderus yw’r ffaith nad yw bron traean o blant yn mynd am brawf llygaid. Mae Optometreg Cymru yn nodi, ar hyn o bryd, ei fod yn parhau i weithio o dan delerau gwasanaeth 1948, sy’n anaddas i’r diben. Optometreg yw’r unig broffesiwn sydd â chontract yng Nghymru sydd heb gontract modern. Mae Cymru wedi cael ei gadael ar ei hôl hi oherwydd bod Lloegr a’r Alban ill dau wedi cael contractau newydd yn ddiweddar. Er gwaethaf cytundeb y Gweinidog, nid yw’r Llywodraeth bresennol na’r rhai blaenorol wedi darparu contract eto ar gyfer optometreg yng Nghymru. Mae gofal optometreg wedi datblygu ac erbyn hyn gall optometreg ddarparu gofal o ansawdd clinigol uchel mewn practisau â chyfarpar da yn y gymuned. Mae nifer yr archwiliadau llygaid yn yr Alban wedi cynyddu’n sylweddol ers i’r contract newydd gael ei gyflwyno, gan helpu i atal colli golwg a lleihau’r pwysau ar ofal eilaidd.

Byddai ymdrin ag achosion o golli golwg y gellir eu hosgoi yn arbed arian cyhoeddus yn y pen draw. Yr amcangyfrif o gostau uniongyrchol colli golwg yw £113 miliwn, ac mae’r costau anuniongyrchol yn £325 miliwn. Yn bwysicach, fodd bynnag,

for thousands of people.

byddai'n rhoi terfyn ar yr anhapusrwydd a'r iselder y mae colli golwg yn eu hachosi i filoedd o bobl.

Gwelliant 6 Aled Roberts

Amendment 6 Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynllun gofal llygaid sy'n cael ei gyhoeddi yn sicrhau bod pob plentyn pedair a phum mlwydd oed yng Nghymru yn cael profion golwg yn yr ysgol.

Calls on the Welsh Government to ensure that any eye care plan that is to be published ensures that all four and five year olds in Wales receive vision screening in school.

Kirsty Williams: I move amendment 6, tabled in the name of Aled Roberts, on behalf of the Welsh Liberal Democrat group.

Kirsty Williams: Cynigiau welliant 6, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts, ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

I begin by saying that I agree with the Minister that there is much that we can be very proud of. The work undertaken by the Assembly's first Minister for health, Jane Hutt, saw a real focus on eye health and real change at that time. We extended free tests to groups of Welsh citizens. We ensured that better services and better screening were in place for those who were known to be at risk of losing their sight. We had better referral systems that began to engage community providers in taking on certain roles that had previously been held by hospital providers, and for those who needed assistance, the low-vision aid scheme was truly revolutionary for its time. As I said, there was much to be proud of.

Hoffwn ddechrau drwy ddweud fy mod yn cytuno â'r Gweinidog fod llawer y gallwn fod yn falch iawn ohono. Rhoddodd y gwaith a wnaeth Gweinidog Iechyd Cyntaf y Cynulliad, Jane Hutt, bwyslais go iawn ar iechyd y llygaid a chafwyd newid gwirioneddol bryd hynny. Gwnaethom ymestyn profion am ddim i grwpiau o ddinasyddion Cymru. Gwnaethom sicrhau bod gwell gwasanaethau a gwell sgrinio ar waith ar gyfer y rhai y gwyddem eu bod mewn perygl o golli eu golwg. Cawsom well systemau atgyfeirio, a dechreuodd darparwyr cymunedol gymryd rolau penodol a arferai gael eu gwneud gan ddarparwyr mewn ysbytai, ac i'r rhai yr oedd arnynt angen cymorth, roedd y cynllun golwg gwan yn wirioneddol chwyldroadol yn ei gyfnod. Fel y dywedais, roedd llawer i ymfalchïo ynddo.

Since that time, it is almost as though the Government feels that it has ticked that particular box and it is time to move on to another aspect of developing services. I am glad to see the focus, if you will forgive the pun, returning once more to what we can do to improve services for those who need help. Let us remind ourselves, as we did most recently in the cross-party debate, that 50% of sight loss is avoidable if we put the right public health messages in place to encourage people to take action that can preserve their sight.

Ers hynny, mae'r Llywodraeth bron fel pe bai'n teimlo ei bod wedi ticio'r blwch penodol hwnnw a'i bod yn bryd symud ymlaen at agwedd arall ar ddatblygu gwasanaethau. Rwy'n falch o weld y ffocws, os maddeuwch y gair mwys, yn dychwelyd unwaith eto ar yr hyn y gallwn ei wneud i wella gwasanaethau i'r rhai y mae angen cymorth arnynt. Gadewch inni atgoffa ein hunain, fel y gwnaethom yn fwyaf diweddar yn y ddadl drawsbleidiol, y gellir osgoi 50% o'r achosion o golli golwg petaem yn trosglwyddo'r negeseuon iechyd cyhoeddus iawn er mwyn annog pobl i gymryd camau a allai gadw eu golwg.

The meat of the Liberal Democrat amendment concerns children. The UK screening body has agreed with the Hall report that every four and five-year-old should have access to screening, and that early intervention and diagnosis of a particular sight issue can have a huge impact on a youngster's ability to engage in their education, which, in turn, will have an impact on their life chances. From work done by RNIB, we know that testing for four and five-year-olds is hugely patchy. There are parts of Wales where the service is almost comprehensive and every child has an opportunity to be screened, but there are also parts where no child is offered that opportunity. Despite the fact that the eye tests are free, we know that children is one of those groups that simply does not take advantage—parents are not aware of the tests, for whatever reason, or they are possibly frightened of taking their child for an eye test, even though it will cost them nothing at all. That is why we want to see the Government committing to making this a comprehensive service, so that every child in Wales, at the age of four or five, will receive a school-based screening opportunity that would triage them to further services should that be necessary.

Children are not the only group of people with a very low uptake of what is a free eye test opportunity. The Government needs to redouble its efforts in this regard. It would be interesting to hear from the Minister about how she sees the promotion of eye tests and eye health fitting into her over-50s health check plans, whatever they will be and whenever they materialise from her department.

Of course, getting people to go for eye checks is what we need to do, but the upstream cost of that falls on access to services, should they be needed. We already know that, in some cases, our services are not coping. Some 23%—almost a quarter—of the people who need to be referred are not being seen within the Government's old specified waiting time. So, if we do have more people presenting for eye checks who need to go on to other services, we need to make sure that there is the capacity in the system, and that

Mae byrdwn gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymwneud â phlant. Mae'r corff sgrinio ar gyfer y DU wedi cytuno ag adroddiad Hall y dylai bob plentyn pedair a phump oed gael mynediad at sgrinio, ac y gall ymyrraeth a diagnosis cynnar gael effaith enfawr ar allu person ifanc i gymryd rhan yn eu haddysg, a bydd hynny, yn ei dro, yn cael effaith ar eu cyfleoedd mewn bywyd. Ar sail y gwaith y mae'r RNIB wedi'i wneud, rydym yn gwybod bod profion i blant pedair a phum mlwydd oed yn hynod o anghyson. Mae rhannau o Gymru lle y mae'r gwasanaeth bron iawn yn gynhwysfawr lle y mae gan bob plentyn gyfle i gael ei sgrinio, ond mewn rhai ardaloedd nid oes yr un plentyn yn cael cynnig y cyfle hwnnw. Er gwaethaf y ffaith bod y profion llygaid am ddim, rydym yn gwybod bod plant yn un o'r grwpiau hynny nad yw'n cymryd mantais—nid yw rhieni'n ymwybodol o'r profion, beth bynnag fo'r rheswm dros hynny, neu efallai fod arnynt ofn mynd â'u plentyn am brawf llygaid, er nad yw'n costio dim. Dyna pam yr ydym am weld y Llywodraeth yn ymrwymo i wneud hwn yn wasanaeth cynhwysfawr, fel bod pob plentyn yng Nghymru, yn bedair neu bump oed, yn cael cyfle i gael eu sgrinio yn yr ysgol a fyddai'n eu cyfeirio ymlaen at wasanaethau pellach yn ôl yr angen.

Nid plant yw'r unig grŵp o bobl sydd â niferoedd isel iawn yn manteisio ar y cyfle i gael profion llygaid am ddim. Mae angen i'r Llywodraeth ddyblu ei hymdrechion yn hyn o beth. Byddai'n ddiddorol clywed gan y Gweinidog sut y mae'n gweld y gwaith o hyrwyddo profion llygaid ac iechyd y llygaid yn cyd-fynd â'i chynlluniau i gynnig archwiliad iechyd i bobl dros 50 oed, beth bynnag fydd y rheini a phryd bynnag y byddant yn cael eu cyhoeddi gan ei hadran.

Wrth gwrs, cael pobl i fynd i gael profion llygaid yw'r hyn sydd angen inni ei wneud, ond mae cost o ran mynediad at wasanaethau yn dod yn sgîl hynny, pe bai eu hangen. Gwyddom eisoes, mewn rhai achosion, nad yw ein gwasanaethau yn gallu ymdopi. Nid yw rhyw 23%—bron chwarter—y bobl sydd angen eu hatgyfeirio yn cael eu gweld o fewn yr hen amser aros yr oedd y Llywodraeth wedi'i bennu. Felly, os oes gennym fwy o bobl yn cael profion llygaid sydd angen symud ymlaen i wasanaethau eraill, mae

greater linkages between those services in the community and those in secondary care are co-ordinated, so that people are seen at the right time and by the right professionals.

I will close on the issue of the contract. It is time to look at a new contract for our optometrists. They have been left behind when we have looked at new contracts for GPs, dentists and community pharmacies. We need to look at whether the contract is fit for purpose for this group of professionals—I do not believe that it is. It can come as no surprise that the change in the contract in Scotland has led to a huge increase in the uptake of free eye tests. That is a lesson that we cannot afford to ignore, given what we know about our uptake figures. I urge the Minister to make progress on this long-awaited change to the contract.

Gwelliant 7 Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chasgliadau ymchwil sy'n awgrymu bod strwythur a chyfeiriad canfyddedig optometreg o ran gwerthu sbectolau yn annog y gymuned i ystyried bod profion llygaid (a gynhelir mewn siopau) yn wahanol i gamau gwarchod iechyd sylfaenol eraill.

Elin Jones: Cynigaf welliant 7 yn enw Jocelyn Davies.

Rwy'n barod i gefnogi cynnig y Llywodraeth ac yn cytuno â byrdwn y cynnig hwnnw, sef y dylid datblygu cynllun gofal iechyd y llygaid fel rhan o raglen ehangach ar iechyd y cyhoedd. Mae colli golwg yn llwyr neu'n rhannol yn cael effaith bellgyrhaeddol ar ansawdd bywyd unigolion a'u teuluoedd, eu bywyd gwaith ac ar eu gallu i hamddena a theithio. Mae'r rheini'n enghreifftiau amlwg iawn o effaith colli golwg. Fodd bynnag, er yr effeithiau sylweddol hyn, mae modd osgoi hyd at 50% o achosion o golli golwg, drwy ofal llygaid da, gwisgo'r sbectol gywir ac ymyraethau meddygol cynnar. Felly, mae

angen inni sicrhau bod capasiti ar gael yn y system, a bod mwy o gysylltiadau cydlynol rhwng gwasanaethau yn y gymuned a gwasanaethau gofal eilaidd, fel bod pobl yn cael eu gweld ar yr adeg gywir a chan y bobl broffesiynol iawn.

Byddaf yn cloi ar fater y contract. Mae'n amser edrych ar gontract newydd ar gyfer ein optometryddion. Maent wedi cael eu gadael ar ôl pan ydym wedi edrych ar gontractau newydd i feddygon teulu, deintyddion a fferyllfeydd cymunedol. Mae angen inni ystyried a yw'r contract yn addas i'r diben ar gyfer y grŵp hwn o weithwyr proffesiynol—nid wyf yn credu ei fod. Nid yw'n syndod bod y newid yn y contract yn yr Alban wedi arwain at gynnydd enfawr yn y nifer sy'n manteisio ar brofion llygaid am ddim. Mae honno'n wers na allwn fforddio ei hanwybyddu, o ystyried yr hyn a wyddom am ein ffigurau presennol. Anogaf y Gweinidog i wneud cynnydd o ran y newid hir-ddisgwyliedig hwn yn y contract.

Amendment 7 Jocelyn Davies

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to address research findings that the perceived structure and orientation of optometry towards the sale of glasses appears to encourage the community to view eye examinations (undertaken in retail premises) as different from other primary health prevention.

Elin Jones: I move amendment 7 in the name of Jocelyn Davies.

